# Coflyfr y Cod Ymddygiad

**Rhifyn 3 Hydref 2014**

## Tu fewn

Rhagair yr Ombwdsmon 1

Cwflwyniad 3

**Crynodebau Achosion**

Dim tystiolaeth o dor-amod 4

Nid oes angen gweithredu 8

Cyfeiriwyd at bwyllgor safonau 10

Cyfeiriwyd a Banel Dyfarnu Cymru 15

Mwy o Wybodaeth 16

## Rhagair yr Ombwdsmon

Hwn yw fy llyfr achosion Cod Ymddygiad cyntaf fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Rwy'n ddiolchgar i'm rhagflaenydd, Peter Tyndall, am greu'r llyfr achosion hwn, a oedd yn cael ei ystyried yn rhywbeth heriol i'w gynhyrchu. Cyfeirir achosion lle ceir tystiolaeth bod y cod wedi'i dorri at un ai Bwyllgor Safonau neu Dribiwnlys a gynhelir gan Banel Dyfarnu Cymru. Felly, mae'n anodd darparu hanes llawn achos yn ein crynodeb.

Allan o'r pedwar achos ar ddeg sydd yn y rhifyn hwn, nid oedd saith yn dangos unrhyw dystiolaeth bod y cod wedi'i dorri, dros ddwbl y nifer y deliwyd â nhw yn rhifyn blaenorol y llyfr achosion. O'r saith achos, mae pedwar yn ymwneud â hyrwyddo cydraddoldeb a pharch ac mae dau yn ymwneud ag integriti.

Mae'n bwysig iawn, wrth gwrs, bod cwynion rhesymol sy'n ymwneud â'r Cod Ymddygiad, yn dal i gael eu cyfeirio ataf, ond yr hyn sy'n peri pryder i mi yw'r patrwm sydd i weld yn dod i'r amlwg, o gwynion heb unrhyw deilyngdod.

Nid wyf yn gwerthfawrogi cwynion blinderus, sy'n ddi-sail mewn gwirionedd, neu sy'n cael eu hysgogi gan falais neu sy'n gwbl wamal. Os byddaf i'n gweld tystiolaeth o unrhyw ymddygiad o'r fath, byddaf yn ddi-ildio ac yn ymchwilio i unrhyw aelod sy'n cyflwyno cwyn o'r fath, oherwydd os bydd hyn yn cael ei brofi, mae'n achos o dorri'r cod.

(Parheir trosodd)

Ombwdsmon
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Hefyd, yn ystod cyfnod o galedi yn y sector cyhoeddus, mae'n bwysig bod yr adnoddau sydd gennym yn cael eu dyrannu i'r cwynion mwyaf difrifol a bod adnoddau'r trethdalwyr yn cael eu dyrannu i'r meysydd lle mae'r angen mwyaf.

Mae'n ymddangos bod hyn wedi bod yn broblem mewn nifer fechan o gynghorau cymuned, ac mae'r broblem wedi'i datrys yn fras mewn cynghorau sir, drwy'r prosesau datrys materion yn lleol y mae'r cynghorau sir wedi'u mabwysiadu.

Allan o'r holl gwynion am Gynghorau Cymuned a gafodd eu cau'r llynedd, roedd dros 20% yn ymwneud ag un Cyngor Cymuned penodol; roedd pob un o'r 26 o achosion wedi cael eu cau ar ôl ystyriaeth gychwynnol, felly nid oeddent yn deilwng o gael eu hymchwilio ac roedd 22 o'r 26 o gwynion a gafodd eu cau yn 2013/14 yn gwynion Aelod yn erbyn Aelod (oddeutu hanner yn ymwneud â chydraddoldeb a pharch; yr hanner arall yn ymwneud ag integriti).

Roedd Cyngor Cymuned arall yn cyfrif am 7% o'r achosion a gaewyd ac nid oedd yr un o'r rhain, heblaw am un, yn deilwng o gael eu hymchwilio - roedd yr un Cyngor yn cyfrif am 32% o gwynion am god cynghorau cymuned y derbyniodd fy swyddfa yn 2011/12.

Yn ogystal â chyfnod o galedi ym maes gwasanaethau cyhoeddus, rydym hefyd yn debygol o fod yn wynebu cyfnod o ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus ym maes awdurdodau lleol, felly mae'n bwysig bod yr holl gynrychiolwyr lleol yn arwain ac yn sicrhau eu bod yn osgoi mynd ar drywydd materion dibwys a fyddai nid yn unig yn dwyn anfri ar eu cyngor, ond ar eu sector hefyd. Wrth i gynghorau wynebu mwy a mwy o heriau, gobeithio y gallwn sicrhau synnwyr cyffredin er lles pawb.



Nick Bennett

Ombwdsmon

# Cyflwyniad

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ystyried cwynion bod aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru wedi gweithredu'n groes i'r Cod Ymddygiad. Mae'r Ombwdsmon yn ymchwilio i gwynion o'r fath o dan ddarpariaethau Rhan III Deddf Llywodraeth Leol 2000 a'r Gorchmynion perthnasol a wneir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan y Ddeddf.

Pan fydd yr Ombwdsmon yn penderfynu y dylid ymchwilio i gŵyn, mae yna bedwar canfyddiad, sydd wedi'u nodi yn adran 69 Deddf Llywodraeth Leol 2000, y gall yr Ombwdsmon eu datgan:

(a) nad oes tystiolaeth bod unrhyw achos o weithredu'n groes i god ymddygiad yr awdurdod;

(b) nad oes angen cymryd unrhyw gamau mewn cysylltiad i'r materion a fu'n destun i'r ymchwiliad;

(c) bod angen cyfeirio'r mater i swyddog monitro'r awdurdod, i'w ystyried gan y pwyllgor safonau;

(d) bod angen cyfeirio'r mater i Lywydd Panel Dyfarnu Cymru ar gyfer dyfarniad gan dribiwnlys (mae hyn yn digwydd mewn achosion mwy difrifol fel arfer).

Yn amgylchiadau (c) a (d) uchod, mae'n ofynnol i'r Ombwdsmon gyflwyno adroddiad am yr ymchwiliad i'r pwyllgor safonau neu dribiwnlys Panel Dyfarnu Cymru, yna byddant hwy'n ystyried y dystiolaeth a ganfuwyd gan yr Ombwdsmon, ynghyd ag unrhyw amddiffyniad a gyflwynir gan yr aelod dan sylw. Hwy hefyd fydd yn penderfynu a oes achos o weithredu'n groes i'r Cod ai peidio, ac os oes, pa gosb (os o gwbl) y dylid ei chyflwyno.

Mae'r Llyfr Achosion Cod Ymddygiad yn cynnwys crynodebau o bob adroddiad sydd wedi'u cyhoeddi gan y swyddfa hon a bydd canfyddiadau'r crynodebau hyn yn cynnwys un o'r pedwar dyfarniad uchod. Yn achos canfyddiadau (c) a (d), bydd y Coflyfr Cod Ymddygiad ond yn cynnwys crynodebau'r achosion hynny y mae gwrandawiadau wedi'u cynnal gan y pwyllgor safonau neu Banel Dyfarnu Cymru, a bod canlyniad y gwrandawiad hwnnw'n hysbys. Mae'r rhifyn hyn yn gorchuddio Ebrill i Medi 2014, ond hefyd yn cynnwys crynodebau achosion henach, ble mae grandawiadau pwyllgor safonau neu Banel Dyfarnu Cymru wedi ei gynnal yn ystod y cyfnod yma.

# Crynodebau Achosion

## Dim tystiolaeth a dor-amod

**Cyngor Sir Ynys Môn – Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch**
**Cyfeirnod yr achos 201304372 – Cyhoeddwyd yr adroddiad fis Medi 2014**

Roedd aelod o Gyngor Cymuned ('yr achwynydd') wedi cwyno bod cyd-aelod o'r Cyngor Sir ('y Cynghorydd') wedi torri'r Cod Ymddygiad pan lenwodd ffurflen sylwadau aelod a'i chyflwyno i Gyngor Sir Ynys Môn mewn ymateb i'w fwriad i werthu tir. Yn benodol, honnodd yr achwynydd nad oedd y Cynghorydd wedi ymgynghori'n ffurfiol â'r Cyngor Cymuned a'i fod wedi camliwio barn y Cyngor. Honnwyd hefyd fod y Cynghorydd wedi ymddwyn yn fwlïaidd tuag at yr achwynydd ac wedi methu â dangos parch ac ystyriaeth tuag ati mewn cyfarfod o'r Cyngor Cymuned yn Hydref 2013.

Cafodd yr Ombwdsmon dystiolaeth gan y Cyngor Cymuned, yn ogystal â datganiadau tyst gan sawl aelod o'r Cyngor Cymuned. Cyfwelwyd y Cynghorydd hefyd a dywedodd ei fod wedi trafod y bwriad i werthu tir yn anffurfiol gyda rhai o aelodau'r Cyngor Cymuned ar ddiwedd y cyfarfod ym mis Mehefin 2013 a bod y safbwyntiau a fynegwyd wedi cael eu hadlewyrchu. Gwadodd y Cynghorydd fod ei ymddygiad tuag at yr achwynydd yn y cyfarfod yn Hydref 2013 yn amhriodol mewn unrhyw ffordd.

Daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad bod y Cynghorydd wedi ymgynghori'n anffurfiol â nifer o aelodau'r Cyngor Cymuned cyn llenwi'r ffurflen. Er ei bod yn ymddangos bod y safbwyntiau a gofnodwyd yn gyson â'r safbwyntiau a fynegwyd, roedd y geiriau a ddefnyddiodd y Cynghorydd ar y ffurflen yn rhoi'r argraff ei fod wedi ymgynghori â'r Cyngor Cymuned a'i fod yn cynrychioli barn ffurfiol ar y mater, ac nid oedd hynny'n gywir. Roedd yr Ombwdsmon wedi'i fodloni nad oedd y Cynghorydd wedi camliwio barn y Cyngor yn fwriadol, ond cynghorodd y Cynghorydd i fod yn fwy gofalus mewn amgylchiadau o'r fath yn y dyfodol.

Nid oedd y dystiolaeth a gasglwyd oddi wrth y rheini a oedd yn bresennol yn y cyfarfod yn Hydref 2013 yn ategu'r honiadau a oedd wedi'u gwneud gan yr achwynydd. Daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad nad oedd tystiolaeth bod y Cod Ymddygiad wedi'i dorri yn y materion a ystyriwyd.

**Cyngor Caerdydd – Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch**
**Cyfeirnod yr achos 201304630 – Cyhoeddwyd yr adroddiad fis Medi 2014**

Roedd aelod o'r cyhoedd ('yr achwynydd') wedi cwyno bod aelod o Gyngor Caerdydd ('y Cynghorydd') wedi torri'r Cod Ymddygiad drwy fethu â dangos parch ac ystyriaeth tuag ati yn ystod sgwrs â hi dros y ffôn. Honnodd yr achwynydd fod tôn llais y Cynghorydd wedi bod yn ymosodol a bwlïaidd a'i fod felly wedi dwyn anfri ar swydd yr aelod. Roedd hefyd wedi gofyn a oedd y Cynghorydd wedi camfanteisio ar ei swydd drwy gael ei rhif ffôn gan sicrhau mantais drwy hynny iddo ef neu ei etholwr.

Penderfynodd yr Ombwdsmon ei bod yn briodol ymchwilio i'r gŵyn. Roedd yr Ombwdsmon wedi cael bod y dystiolaeth gan drydydd parti a fu'n dyst uniongyrchol i'r sgwrs yn berswadiol. Gan fod y Cynghorydd yn gweithredu ar ran etholwr, roedd yn briodol iddo gael y rhif ffôn i wneud yr alwad dan sylw wrth eirioli ar ei ran. Daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad nad oedd y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr ymchwiliad yn awgrymu bod y Cod Ymddygiad wedi'i dorri.

**Cyngor Tref Aberystwyth – Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch**
**Cyfeirnod yr achos 201306243 – Cyhoeddwyd yr adroddiad fis Awst 2014**

Roedd Mr T, sy'n gyflogai i'r Cyngor, wedi cwyno am faterion amrywiol a oedd yn ymwneud ag ymddygiad Aelod o'r Cyngor ('y Cynghorydd'). Roedd yr Ombwdsmon wedi ymchwilio i bum cwyn. Honnodd Mr T fod y Cynghorydd yn amharchus ar wahanol achlysuron, a hynny'n cynnwys dweud celwyddau am ei ymddygiad. Dywedodd fod y Cynghorydd wedi torri cyfrinachedd ynghylch problem cyflogaeth yr oedd yr achwynydd yn ei hwynebu a'i fod wedi dweud ar gam wrth gyflogai arall am beidio ag anfon ei ohebiaeth ymlaen at aelodau o'r Cyngor.

Daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad nad oedd digon o dystiolaeth i ddangos bod y Cynghorydd wedi torri'r Cod mewn cysylltiad â phedwar mater. Mewn cysylltiad ag un o'r honiadau, roedd tystiolaeth bod yr honiadau gan Mr T yn gywir o ran yr hyn yr oedd y Cynghorydd wedi'i ddweud. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid oedd yr Ombwdsmon yn credu bod toriad clir wedi digwydd.

**Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru – Uniondeb**
**Cyfeirnod yr achos 201304587 – Cyhoeddwyd yr adroddiad fis Gorffennaf 2014**

Cwynodd Mr S am ymddygiad aelod o'r Awdurdod Tân ('yr Aelod'). Honnodd fod yr Aelod wedi torri'r Cod Ymddygiad drwy gamddefnyddio ar ei swydd fel aelod o'r Awdurdod i ysgrifennu at Gadeirydd yr Awdurdod ynghylch penderfyniad i wrthod cais gan unigolyn am gyflogaeth ('yr ymgeisydd'). Honnwyd hefyd fod cysylltiad personol agos rhwng yr Aelod a'r ymgeisydd.

Penderfynodd yr Ombwdsmon Dros Dro ei bod yn briodol ymchwilio i ganfod a oedd yr ymddygiad honedig yn awgrymu bod y Cod Ymddygiad wedi'i dorri. Cafwyd gwybodaeth oddi wrth yr Awdurdod Tân, yr ymgeisydd a'r Aelod. Roedd yr ymchwiliad wedi canfod bod yr ymgeisydd wedi cysylltu â'r Aelod, yn rhinwedd ei swydd fel aelod o'r Awdurdod, i gael cymorth wedi i'r ymgeisydd fethu â chael ymateb boddhaol gan y Gwasanaeth Tân ynghylch ei bryderon am gyflogaeth. Roedd yr Aelod wedi ysgrifennu dair gwaith at y Cadeirydd gan gyfeirio at yr unigolyn dan sylw a'r ffordd o ddehongli a chymhwyso polisïau recriwtio.

Daeth yr Ombwdsmon Dros Dro i'r casgliad nad oedd y dystiolaeth a gasglwyd yn awgrymu bod y Cod wedi'i dorri. Roedd hawl gan yr Aelod i godi pryderon ynghylch y Gwasanaeth neu Awdurdod Tân sydd wedi'u dwyn i'w sylw yn rhinwedd ei swydd fel aelod etholedig, hyd yn oed os oedd y pryderon yn ymwneud â pholisïau cyflogaeth. Yn ogystal â hynny, nid oedd yr Ombwdsmon Dros Dro wedi cael ei ddarbwyllo gan y dystiolaeth bod cysylltiad personol agos rhwng yr Aelod a'r unigolyn dan sylw a fyddai wedi arwain at fuddiant personol a oedd i'w ddatgan o dan ddarpariaethau'r Cod Ymddygiad.

**Cyngor Dinas Casnewydd – Datgelu a chofrestru buddiannau**
**Cyfeirnod yr achos 201302386 – Cyhoeddwyd yr adroddiad fis Mai 2014**

Cafodd yr Ombwdsmon Dros Dro gŵyn bod aelod o Gyngor Dinas Casnewydd ('y Cynghorydd') wedi torri'r Cod Ymddygiad drwy benderfynu ymlaen llaw ym mha ffordd y byddai'n pleidleisio ar benderfyniad yn y Pwyllgor Cynllunio i gadarnhau Gorchymyn Cadw Coed ("GCC"); ac y dylai'r Cynghorydd fod wedi datgan buddiant pan gododd yr eitem yn y pwyllgor ar y sail bod swyddog o'r Cyngor ("y swyddog") wedi dweud wrtho fod y Cynghorydd wedi gofyn am y GCC.

Cafodd yr Ombwdsmon Dros Dro ddogfennau oddi wrth Cyngor a siaradodd â'r swyddog. Ar ôl ystyried y wybodaeth a gafwyd yn ystod yr ymchwiliad, daeth yr Ombwdsmon Dros Dro i'r casgliad nad oedd tystiolaeth bod y Cynghorydd wedi torri'r Cod Ymddygiad.

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf – Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch**
**Cyfeirnod yr achos 201305349 – Cyhoeddwyd yr adroddiad fis Mai 2014**

Ar ôl cael cwyn gan aelod o awdurdod lleol ('yr achwynydd'), roedd yr Ombwdsmon Dros Dro wedi ymchwilio i ganfod a oedd aelod arall ('y Cynghorydd') wedi torri'r Cod Ymddygiad. Honnodd yr achwynydd fod y Cynghorydd wedi ceisio ei fychanu yn ei ardal leol drwy wneud honiadau cyfeiliornus yn ddigywilydd wrth aelod o'r cyhoedd.

Drwy ymchwiliad yr Ombwdsmon Dros Dro, cafwyd dogfennau oddi wrth y Cyngor a datganiadau gan yr aelod o'r cyhoedd, yn ogystal â dau Gynghorydd arall. Roedd y Cynghorydd hefyd wedi ymateb i'r gŵyn. Ar ôl ystyried y wybodaeth a oedd ar gael, daeth yr Ombwdsmon Dros Dro i'r casgliad nad oedd tystiolaeth bod y Cynghorydd wedi torri'r Cod Ymddygiad.

**Cyngor Caerdydd – Uniondeb**
**Cyfeirnod yr achos 201202666 – Cyhoeddwyd yr adroddiad fis Ebrill 2014**

Cwynodd aelod o'r Cyngor ('yr achwynydd') am yr ymddygiad tuag ato gan gyd-aelod ('y Cynghorydd'), y credai ei fod o bosibl yn torri'r Cod Ymddygiad mewn sawl ffordd. Honnodd fod ymddygiad y Cynghorydd tuag ato, o'i ystyried gyda'i gilydd, yn achosi aflonyddu ac mai ei bwrpas oedd tanseilio ei rôl fel aelod. Roedd yr achwynydd hefyd wedi honni bod y Cynghorydd wedi methu â dangos parch ac ystyriaeth tuag ato a nifer o bersonau eraill, gan gynnwys aelodau o'r cyhoedd, swyddogion o'r Cyngor a chyd-Gynghorwyr. Roedd yr achwynydd o'r farn bod hyn wedi digwydd droeon, yn bersonol ac mewn gwahanol fathau o ddeunydd ysgrifenedig, ac y gallai ymddygiad o'r fath ddwyn anfri ar rôl yr aelod a'r Cyngor. Yn ogystal â hyn, honnodd yr achwynydd fod y Cynghorydd wedi methu â dangos egwyddor cydraddoldeb i bawb mewn rhai eitemau o'i ddeunydd ysgrifenedig.

Penderfynodd yr Ombwdsmon Dros Dro ei bod yn briodol ymchwilio i ganfod a oedd y Cynghorydd wedi methu cydymffurfio â'r Cod Ymddygiad a chafodd dystiolaeth oddi wrth y Cyngor. Cafwyd cyfweliadau â'r achwynydd a'r Cynghorydd hefyd.

Casgliad yr adroddiad oedd ei bod yn ymddangos bod cymhelliad gwleidyddol i nifer o'r materion a godwyd a'r safbwyntiau a fynegwyd gan y Cynghorydd (mewn gwahanol fformatau). Yn ogystal â hyn, er bod yr Ombwdsmon Dros Dro o'r farn y gallai rhai o'r sylwadau a wnaeth y Cynghorydd, yn y gwahanol fformatau, fod ar ffin yr hyn sy'n dderbyniol fel mynegiant gwleidyddol, y gellid ystyried hefyd eu bod yn agwedd ar y taro a gwrthdaro a geir mewn gwleidyddiaeth leol.

Felly, ar ôl adolygu'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr ymchwiliad, nid oedd yr Ombwdsmon Dros Dro wedi'i fodloni ei bod yn ddigon dibynadwy fel sail i unrhyw gamau pellach.

## Nid oes angen gweithredu

**Cyngor Cymuned Llansantffraed – Datgelu a chofrestru buddiannau**
**Cyfeirnod yr achos 201303799 – Cyhoeddwyd yr adroddiad fis Awst 2014**

Cafodd yr Ombwdsmon gŵyn bod aelod o Gyngor Cymuned Llantsantffraed ('y Cynghorydd') wedi torri'r Cod Ymddygiad yn ystod cyfarfod o'r Cyngor ar 6 Awst 2013, drwy fethu â datgan buddiant a gadael yr ystafell pan oedd cais cynllunio yn cael ei drafod.

Penderfynodd yr Ombwdsmon ei bod yn briodol ymchwilio i ganfod a oedd y Cynghorydd wedi torri'r Cod Ymddygiad a chafodd dystiolaeth oddi wrth y Cyngor, Adran Gynllunio'r Cyngor Sir a'r personau a oedd yn bresennol yn y cyfarfod.  Roedd y Cynghorydd hefyd wedi cyflwyno sylwadau a dogfennau ategol.

Roedd yr Ombwdsmon wedi'i fodloni, at ei gilydd, fod y dystiolaeth yn awgrymu bod buddiant personol a rhagfarnus gan y Cynghorydd ym musnes y Cyngor a oedd yn ymwneud â'r cais cynllunio. Y rheswm am hyn oedd bod ei fferm yn agos i'r safle a bod aelod o'i deulu'n byw gyferbyn iddo.  Fodd bynnag, roedd yr Ombwdsmon yn teimlo, at ei gilydd, nad oedd y dystiolaeth yn awgrymu bod y Cynghorydd wedi chwarae rhan weithredol mewn trafodaethau am y mater yn ystod y cyfarfod.  Daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad nad oedd angen cymryd camau mewn cysylltiad â'r materion dan sylw.

**Cyngor Cymuned Llanbadrig – Atebolrwydd a Gweithredu Agored; Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch**
**Cyfeirnodau'r achos 201304536 a 201305202 – Cyhoeddwyd yr adroddiad fis  Awst 2014**

Cafodd yr Ombwdsmon bedair cwyn gan aelod o'r Cyngor Cymuned ('yr achwynydd') yn erbyn aelod arall o'r un Cyngor ('y Cynghorydd'). Yn gyntaf, nad oedd y Cynghorydd wedi datgan buddiant mewn mater a oedd yn ymwneud â pharcio ceir a ddaeth gerbron y Cyngor.  Yn ail, bod y Cynghorydd wedi torri'r Cod drwy ofyn cwestiynau annheg a gwahaniaethol i ymgeisydd benywaidd mewn cyfweliad am swydd.  Yn drydydd, bod y Cynghorydd wedi arddangos deunydd a allai fod yn hiliol mewn siop a thrwy hynny wedi dwyn anfri ar y Cyngor.  Yn olaf, bod y Cynghorydd wedi bod yn ddifrïol o flaen aelod o'r cyhoedd pan ymwelodd yr achwynydd â'i siop ar fusnes y Cyngor.

Ymchwiliodd yr Ombwdsmon i bob un o'r pedair cwyn. Casglodd yr Ombwdsmon  ddeunydd ysgrifenedig sylweddol a chyfwelodd rai o'r tystion a oedd yn gysylltiedig.  Darparwyd y dystiolaeth gan y Cynghorydd, a gyfwelwyd hefyd yn ystod yr ymchwiliad.

Daeth yr Ombwdsmon i gasgliad ynghylch pob un o'r honiadau fel a ganlyn. Gyda golwg ar y mater sy'n ymwneud â pharcio ceir, cafodd ei bod yn bosibl bod y Cynghorydd wedi torri'r Cod drwy beidio â datgan buddiant personol. Fodd bynnag, roedd hyn yn ymylol ac nid oedd wedi dod i'r casgliad bod toriad pendant wedi digwydd. Gyda golwg ar y cwestiynau yn y cyfweliad am swydd, roedd yr Ombwdsmon o'r farn ei bod yn bosibl bod toriad wedi digwydd ac mai annoeth ar ran y Cynghorydd oedd gofyn y cwestiynau a wnaeth. Er hynny, daeth i'r casgliad, hyd yn oed pe byddai'r Cod wedi'i dorri a bod y mater wedi'i gyfeirio at bwyllgor safonau, ei bod yn annhebygol y byddai'r pwyllgor yn gosod sancsiwn. Ar y ddau fater hyn, cafodd yr Ombwdsmon nad oedd angen cymryd camau pellach.

Nid oedd yr Ombwdsmon wedi dod i'r casgliad bod y Cynghorydd wedi torri'r Cod yng nghyswllt arddangos deunydd a allai fod yn dramgwyddus yn y siop. Y rheswm am hyn oedd mai ei ferch a arddangosodd yr eitemau, a bod hawl ganddi i wneud hynny fel partner busnes. Yn olaf, daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad bod y Cynghorydd wedi torri'r Cod Ymddygiad drwy fod yn anghwrtais iawn wrth yr achwynydd. Fodd bynnag, nid oedd o'r farn y byddai pwyllgor safonau'n gosod sancsiwn oherwydd natur unigryw'r weithred honno a'r camau lliniaru. Penderfynodd yr Ombwdsmon na fyddai'n cymryd camau pellach ond rhybuddiodd y Cynghorydd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

## Cyfeiriwyd at bwyllgor safonau

**Cyngor Tref Tywyn – Datgelu a chofrestru buddiannau**
**Cyfeirnod yr achos 201301629 – Cyhoeddwyd yr adroddiad fis Mai 2014**

Cafodd yr Ombwdsmon Dros Dro gŵyn gan aelod o'r Cyngor Tref fod aelod arall o'r Cyngor ('y Cynghorydd') wedi torri'r Cod Ymddygiad yn ystod cyfarfodydd o'r Cyngor a Phwyllgor Cyllid y Cyngor a gynhaliwyd rhwng Mai a Medi 2013. Honnwyd y dylai'r Cynghorydd fod wedi datgan buddiant a gadael yr ystafell pan drafodwyd eitemau a oedd yn ymwneud â Siambr Twristiaeth a Masnach Tywyn a'r Cylch ("yr STM") yn ystod y cyfarfodydd. Honnwyd hefyd fod y Cynghorydd wedi gwneud sylwadau di-sail am yr STM er mwyn ceisio atal cymorth ariannol iddi oddi wrth y Cyngor.

Penderfynodd yr Ombwdsmon Dros Dro ei bod yn briodol ymchwilio i ganfod a oedd y Cynghorydd wedi torri'r Cod Ymddygiad a chafodd dystiolaeth gan y Cyngor Tref, y Cyngor Sir a phersonau a oedd yn bresennol yn y cyfarfodydd.

Roedd yr Ombwdsmon Dros Dro wedi'i fodloni bod y dystiolaeth yn awgrymu, at ei gilydd, fod buddiant personol a rhagfarnus gan y Cynghorydd ym musnes y Cyngor sy'n ymwneud â'r STM, oherwydd hanes diweddar o chwerwder a'i hanghydfod cyfredol â'r STM. Teimlai'r Ombwdsmon Dros Dro fod tystiolaeth o'r posibilrwydd bod y Cynghorydd wedi ceisio defnyddio ei swydd yn amhriodol, wedi methu dod i benderfyniadau'n wrthrychol ac y byddai ei hymddygiad yn gallu dwyn anfri ar ei rôl fel aelod, neu ar y Cyngor.

Roedd yr Ombwdsmon Dros Dro wedi cyfeirio'r mater at y Cyngor Sir i'w benderfynu gan ei Bwyllgor Safonau. Daeth y Pwyllgor Safonau i'r casgliad bod y Cynghorydd wedi mynd yn groes i baragraffau penodol yn y Cod Ymddygiad a phenderfynodd y dylai gael ei hatal o'i swydd am gyfnod o dri mis.

Gellir gweld penderfyniad y Pwyllgor Safonau yma.

**Cyngor Gwynedd – Atebolrwydd a Gweithredu Agored; Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch**
**Cyfeirnodau'r achos 201300346 a 201301307 – Cyhoeddwyd yr adroddiad fis Mai 2014**

Cafodd yr Ombwdsmon Dros Dro ddwy gŵyn am ymddygiad aelod o Gyngor Gwynedd ('y Cynghorydd'). Honnodd yr achwynydd fod y Cynghorydd wedi ffilmio a recordio sgwrs â hi'n ddirgel tra oedd yn cyflawni ei dyletswyddau fel Swyddog Gorfodi Parcio Sifil ar 8 Chwefror 2013 a'i fod wedi gosod fideo o'r sgwrs hon wedyn ar ei dudalen Facebook. Honnodd achwynydd arall fod y Cynghorydd wedi ymddwyn yn fygythiol tuag ato ar 17 Mai 2013, tra oedd yn cyflawni ei ddyletswyddau fel Swyddog Gorfodi Sifil. Honnodd y ddau achwynydd fod y Cynghorydd wedi methu cwrdd â gofynion y Cod Ymddygiad.

Penderfynodd yr Ombwdsmon Dros Dro ei bod yn briodol ymchwilio i ganfod a oedd y Cynghorydd wedi torri'r Cod Ymddygiad a chafodd dystiolaeth gan y Cyngor yn ogystal â phersonau a oedd yn bresennol yn y ddau ddigwyddiad.

Nid oedd yr Ombwdsmon Dros Dro wedi'i ddarbwyllo y byddai ymddygiad y Cynghorydd wrth osod ffilm o'i sgwrs â'r achwynydd ar Facebook yn gallu dwyn anfri ar rôl yr aelod na'r Cyngor.  Er hynny, teimlai'r Ombwdsmon Dros Dro mai mater i Bwyllgor Safonau'r Cyngor oedd penderfynu a fyddai ei weithredoedd, a fyddai'n gyfystyr ag ymadawiad â phrotocol y Swyddogion/Aelodau, yn gallu gwneud hynny.

Roedd yr Ombwdsmon Dros Dro wedi'i ddarbwyllo bod y dystiolaeth a gafwyd yn ystod yr ymchwiliad i'r ail gŵyn yn awgrymu, at ei gilydd, fod ymddygiad y Cynghorydd yn groes i'r Cod Ymddygiad. Roedd yr Ombwdsmon Dros Dro wedi cyfeirio'r ddau fater at y Cyngor i'w penderfynu gan ei Bwyllgor Safonau.

Yng nghyswllt y gŵyn gyntaf, penderfynodd y Pwyllgor Safonau fod y Cynghorydd wedi methu cydymffurfio â pharagraffau penodol yn y Cod Ymddygiad gan nad oedd wedi dilyn gweithdrefnau mewnol y Cyngor mewn cysylltiad â phryderon ynghylch cyflogeion y Cyngor a'i fod, yn hytrach, wedi codi ei bryderon yn gyhoeddus, gan beri gofid i un o swyddogion y Cyngor. Roedd y Pwyllgor Safonau yn credu hefyd fod y Cynghorydd, drwy beidio â datgelu ei fod yn Aelod o'r Awdurdod, wedi dangos diffyg parch ac ystyriaeth tuag at swyddogion y Cyngor drwy osod y ffilm ar Facebook ac enwi un o swyddogion y Cyngor. Penderfynodd y Pwyllgor Safonau y dylid ceryddu'r Cynghorydd am dorri'r Cod Ymddygiad yn yr achos hwn. Roedd y Pwyllgor Safonau hefyd wedi penderfynu y dylai'r Cynghorydd dynnu'r ffilm a'r cofnod oddi ar ei dudalen Facebook ar unwaith a derbyn hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad a holl brotocolau'r Cyngor sy'n berthnasol i ymddygiad cynghorwyr.

Yng nghyswllt yr ail gŵyn, penderfynodd y Pwyllgor Safonau fod y Cynghorydd wedi methu cydymffurfio â pharagraffau penodol yn y Cod Ymddygiad. Gan gymryd holl amgylchiadau'r achos i ystyriaeth, daeth y Pwyllgor i'r casgliad nad oedd ei ymddygiad wrth fygwth trais corfforol yn briodol nac yn gymesur. Nid hwn oedd y math o ymddygiad a ddisgwylir gan aelod etholedig ac, oherwydd hynny, roedd yn dwyn anfri ar ei swydd ac ar y Cyngor. Penderfynodd y Pwyllgor Safonau y dylid atal y Cynghorydd o'i rôl fel aelod am gyfnod o ddau fis.

Gellir gweld penderfyniad y Pwyllgor Safonau yma.

**Cyngor Caerdydd – Uniondeb**
**Cyfeirnod yr achos 201202666 – Cyhoeddwyd yr adroddiad fis Ebrill 2014**

Roedd aelod o'r Cyngor ('yr achwynydd') wedi cwyno am ymddygiad cyd-aelod yn ei ward ('y Cynghorydd'). Yn benodol, honnodd yr achwynydd fod y Cynghorydd wedi defnyddio system bostio'r Cyngor i ddosbarthu taflen ymgyrchu gwleidyddol yn Hydref 2012 ac y byddai ei ymddygiad wrth wneud hynny hefyd yn gallu dwyn anfri ar rôl yr aelod ac ar y Cyngor.

Penderfynodd yr Ombwdsmon Dros Dro ei bod yn briodol ymchwilio i ganfod a oedd y Cynghorydd wedi methu cydymffurfio â'r Cod Ymddygiad mewn cysylltiad â'r honiad hwn a chafodd dystiolaeth gan y Cyngor. Roedd yr Ombwdsmon Dros Dro hefyd wedi cyf-weld yr achwynydd a'r Cynghorydd.

Penderfynodd yr Ombwdsmon Dros Dro fod y ffaith bod cais wedi'i gynnwys am gefnogaeth i ymgyrch (cefnogaeth gorfforol ac ariannol) yn awgrymu'n gryf, at ei gilydd, fod y daflen yr oedd y Cynghorydd wedi'i drafftio a'i dosbarthu yn un o natur "wleidyddol". Daeth yr Ombwdsmon Dros Dro i'r casgliad bod y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr ymchwiliad mewn cysylltiad â'r mater hwn yn awgrymu bod y Cynghorydd wedi defnyddio adnoddau postio'r Cyngor yn amhriodol at ddibenion gwleidyddol, yn groes i ofynion y Cod Ymddygiad.

Penderfynodd yr Ombwdsmon Dros Dro y dylid cyfeirio ei hadroddiad ar yr ymchwiliad hwn at Swyddog Monitro Cyngor Sir Caerdydd, i'w ystyried gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor. Penderfynodd y Pwyllgor Safonau fod y Cynghorydd wedi methu cydymffurfio â'r Cod Ymddygiad. Fodd bynnag, o ystyried yr amgylchiadau ac, yn benodol, y ffaith bod y Cynghorydd wedi ymddiheuro'n llawn ar ôl cyhoeddi'r adroddiad, a hefyd ei fod wedi ad-dalu'r costau postio a ysgwyddwyd, ni ddylid cymryd camau pellach mewn cysylltiad â'r methiant hwn.

Gellir gweld penderfyniad y Pwyllgor Safonau yma.

**Cyngor Cymuned Tregolwyn – Datgelu a chofrestru buddiannau**
**Cyfeirnod yr achos 201301409 – Chwefror 2014**

Roedd aelod o'r cyhoedd ('yr achwynydd') wedi cwyno bod aelod o Gyngor Cymuned Tregolwyn ('y Cynghorydd') wedi torri'r Cod Ymddygiad. Yn benodol, dywedodd yr achwynydd fod y Cynghorydd wedi methu â datgan buddiant personol a rhagfarnus mewn cyfarfod o'r Cyngor Cymuned yn Awst 2012 mewn cysylltiad â chais cynllunio ar gyfer safle ger ei gartref a fyddai wedi cael effaith niweidiol arno pe byddai'r Cyngor Sir wedi'i gymeradwyo. Hefyd, roedd y Cynghorydd wedi cymryd rhan mewn trafodaethau a oedd yn arwain at gynlluniau a fyddai wedi gallu ei gwneud yn fwy anodd datblygu'r safle yn y dyfodol.

Roedd yr Ombwdsmon Dros Dro o'r farn ei bod yn bosibl bod y Cynghorydd wedi torri'r Cod Ymddygiad drwy fethu â datgan y buddiant a chyfrannu at benderfyniadau'r Cyngor Cymuned, y byddai eu canlyniad wedi gallu rhoi mantais iddo. Yn ystod yr ymchwiliad, cyfwelwyd y Cynghorydd ac ystyriwyd tystiolaeth ysgrifenedig a oedd yn ymwneud â'r gŵyn. Roedd yr Ombwdsmon Dros Dro hefyd wedi ystyried y ffaith bod Cadeirydd y Cyngor Cymuned wedi nodi wrth y Cynghorydd nad oedd angen iddo ddatgan buddiant.

Penderfynodd yr Ombwdsmon Dros Dro fod gweithredoedd y Cynghorydd yn awgrymu bod y Cod wedi'i dorri mewn pedair ffordd. Roedd y rhain yn ymwneud â defnyddio ei swydd i gael mantais, methu â datgan buddiant personol, peidio â gadael y cyfarfod er bod ganddo fuddiant rhagfarnus, a cheisio dylanwadu ar benderfyniad tra oedd buddiant rhagfarnus ganddo. Roedd yr Ombwdsmon Dros Dro wedi cyfeirio'r mater at Bwyllgor Safonau Cyngor Bro Morgannwg.

Daeth y Pwyllgor Safonau i'r casgliad bod y Cynghorydd wedi torri'r Cod Ymddygiad. Rhoddodd gerydd iddo a gofyn iddo ddilyn hyfforddiant. Gellir gweld penderfyniad y Pwyllgor Safonau yma.

**Cyngor Cymuned Tregolwyn – Datgelu a chofrestru buddiannau**
**Cyfeirnod yr achos 201301594 – Chwefror 2014**

Roedd aelod o'r cyhoedd ('yr achwynydd') wedi cwyno bod aelod o Gyngor Cymuned Tregolwyn ('y Cynghorydd') wedi torri'r Cod Ymddygiad. Yn benodol, dywedodd yr achwynydd fod y Cynghorydd wedi methu â datgan buddiant personol a rhagfarnus mewn cyfarfod o'r Cyngor Cymuned yn Awst 2012 mewn cysylltiad â chais cynllunio ar gyfer safle ger ei gartref a fyddai wedi cael effaith niweidiol arno pe byddai'r Cyngor Sir wedi'i gymeradwyo. Hefyd, roedd y Cynghorydd wedi cymryd rhan mewn trafodaethau a oedd yn arwain at gynlluniau a fyddai wedi gallu ei gwneud yn fwy anodd datblygu'r safle yn y dyfodol.

Roedd yr Ombwdsmon Dros Dro o'r farn ei bod yn bosibl bod y Cynghorydd wedi torri'r Cod Ymddygiad drwy fethu â datgan y buddiant a chyfrannu at benderfyniadau'r Cyngor Cymuned, y byddai eu canlyniad wedi gallu rhoi mantais iddo. Cyfwelwyd y Cynghorydd ac ystyriwyd tystiolaeth ysgrifenedig a oedd yn ymwneud â'r gŵyn. Roedd yr Ombwdsmon Dros Dro hefyd wedi ystyried y ffaith bod Cadeirydd y Cyngor Cymuned wedi nodi wrth y Cynghorydd nad oedd angen iddo ddatgan buddiant.

Penderfynodd yr Ombwdsmon Dros Dro fod gweithredoedd y Cynghorydd yn awgrymu bod y Cod wedi'i dorri mewn pedair ffordd. Roedd y rhain yn ymwneud â defnyddio ei swydd i gael mantais, methu â datgan buddiant personol, peidio â gadael y cyfarfod er bod ganddo fuddiant rhagfarnus, a cheisio dylanwadu ar benderfyniad tra oedd buddiant rhagfarnus ganddo.

Roedd yr Ombwdsmon Dros Dro wedi cyfeirio'r mater at Bwyllgor Safonau Cyngor Bro Morgannwg. Daeth y Pwyllgor Safonau i'r casgliad bod y Cynghorydd wedi torri'r Cod Ymddygiad. Rhoddodd gerydd iddo a gofyn iddo ddilyn hyfforddiant.

Gellir gweld penderfyniad y Pwyllgor Safonau yma.

**Cyngor Cymuned Sili – Uniondeb**
**Cyfeirnod yr achos 201204263 – Chwefror 2014**

Cwynodd aelod o'r Cyngor Cymuned fod Cadeirydd y Cyngor wedi'i wahardd rhag anfon negeseuon e-bost at Glerc y Cyngor, a'i fod wedi methu â bod yn agored â'r Cyngor wedyn ynghylch ei weithred. Credai'r achwynydd ei fod wedi'i roi mewn sefyllfa lle na allai gynnal busnes y Cyngor yn effeithiol a bod y sefyllfa hon wedi codi o ganlyniad i gwestiynau yr oedd wedi'u gofyn ynghylch y ffordd yr oedd y Cyngor wedi delio â materion cynnal a chadw. Dywedodd fod hyn wedi achosi anghydfod rhyngddo a'r Cadeirydd a bod aelodau eraill wedi'u hysbysu am yr anawsterau rhwng y ddau.

Credai'r achwynydd nad oedd yn cael cymryd rhan yn llawn yng nghyfarfodydd y Cyngor a dywedodd ei fod wedi cael negeseuon e-bost oddi wrth y Cadeirydd a oedd, yn ei farn ef, yn dramgwyddus a phersonol. Dywedodd fod copïau o'r negeseuon e-bost hyn wedi'u hanfon at aelodau eraill a bod aelodau o'r cyhoedd wedi cael eu hysbysu weithiau am yr anawsterau rhyngddynt.

Roedd yr Ombwdsmon Dros Dro wedi penderfynu ymchwilio i'r gŵyn gan ei bod yn ymddangos bod tystiolaeth o'r posibilrwydd bod y Cod Ymddygiad wedi'i dorri yng nghyswllt dangos parch at bobl eraill a pheidio â dwyn anfri ar eu swydd neu awdurdod.  Penderfynodd yr Ombwdsmon Dros Dro y byddai'r mater yn cael ei gyfeirio at Swyddog Monitro Cyngor Bro Morgannwg i'w benderfynu gan ei Bwyllgor Safonau.

Daeth y Pwyllgor Safonau i'r casgliad bod sawl toriad ar baragraffau penodol yn y Cod Ymddygiad. Penderfynodd y Pwyllgor y dylai'r Cadeirydd gael ei atal o'i swydd am 6 mis ac y dylai ddilyn hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad.

Gellir gweld penderfyniad y Pwyllgor Safonau yma.

## Cyfeiriwyd at Banel Dyfarnu Cymru

Does dim crynodeb ar gyfer y canfyddiad hwn. Mae'r Ombwdsmon wedi cyfeirio un adroddiad at Banel Dyfarnu Cymru; bydd crynodeb yr adroddiad hwn ar gael ar ôl cyhoeddi Hysbysiad o Benderfyniad y Panel.

# Mwy o Wybodaeth

Rydym yn gwerthfawrogi unrhyw sylwadau neu adborth sydd gennych chi am Coflyfr y Cod Ymddygiad.  Yn ogystal, byddem yn fodlon ateb unrhyw ymholiadau sydd gennych ynghylch ei gynnwys.  Mae modd anfon unrhyw ohebiaeth o'r fath mewn neges e-bost at James.Merrifield@ombudsman-wales.org.uk neu i'r cyfeiriad canlynol:

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**
**1 Ffordd yr Hen Gae**
**Pencoed**
**CF35 5LJ**

**Ffôn** **01656 644200**
**Ffacs** **01656 641199**
**e-bost** **holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk (ymholiadau cyffredinol)**

**Dilynwch ni ar Twitter: @Ombwdsmon**

Ceir rhagor o wybodaeth am y gwasanaeth sy'n cael ei gynnig gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar ein gwefan www.ombwdsmon-cymru.org.uk